# Prosiect: Joe Taylor




Archwiliad o fywyd **Joe Taylor**, dyn du a oedd yn byw yn Llandudno ar ddechrau'r 20fed ganrif ac ynghlwm â'r byd bocsio a phêl-droed. Crëwyd y gwaith celf mewn gweithdai gan ddisgyblion Ysgol John Bright, a hwyluswyd gan Mfikela Jean Samuel, Artist gweledol o Orllewin Affrica sydd bellach yn byw ym Mangor, Gwynedd. Mae'r gwaith yn adlewyrchu elfennau o fywyd a hanes Joe Taylor. Arddangoswyd y gwaith celf yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy o fis Medi 2023 tan fis Chwefror 2024 i'w mwynhau gan y cyhoedd. Mae hyn wedi denu sylw cynulleidfa ehangach at hanes Joe Taylor, ac roedd y plant hefyd wrth eu boddau'n cael gweld eu gwaith yn cael ei arddangos.

"Mae'r prosiect celf hwn sy'n edrych ar fywyd Joe Taylor wedi bod yn gyfle anhygoel ac yn nodyn atgoffa o ba mor hir mae Llandudno a'r fro wedi ymwneud â phobl o gefndiroedd gwahanol (pobl o dreftadaeth Affricanaidd yn yr achos hwn), a rhoi croeso cynnes iddyn nhw." – **Mfikela Jean Samuel**



**Arddangoswyd y gwaith hwn yn ystod Mis Hanes Pobl Dduon 2023 a thu hwnt, gyda chyfraniadau gan Wasanaeth Amgueddfeydd Conwy, Archifau Conwy, Ysgol John Bright, a'r artist Mfikela Jean Samuel.**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

CANOLFAN DDIWYLLIANT CONWY CULTURE CENTRE

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL